**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 27.3.25**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:784: Presennol:** Iwan Pughe Jones (Cadeirydd), Dafydd Evans, Deryck Evans, Gwenfair Rhys-Davies, Aled Griffiths, Bedwyr Fychan, William Owen, Aeron Pughe, Gareth Wyn Jones, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Gareth Owen, Glyn Jones, Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

**19:785: Ymddiheuriadau**: Rhodri Wigley, Huw Williams,

**19:786: Materion Personol:**

**19:787: Datganiadau o ddiddordeb**: Paul Hughes – torri gwair

**19:788: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Chwefror 2025** Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.

**19:789: Materion yn codi o'r cofnodion.** (19.779) Nodwyd y dylid newid enw Tony Kane yn Tony Caine a chynnwys diweddariad ariannol y gwynt yng nghofnodion y gwynt

**19:790: Adroddiad y Clerc –**

**19:791:** Cynllunio -Dim

**19:792: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Cyflog y Clerc Mis Chwefror (Mis 11) £235.80
- Un Llais Cymru - Aelodaeth £282.00
  Cyflog y Clerc Mis Chwefror (Mis 11) £ 235.80
- Adolygu cyflog y clerc Penderfynwyd gohirio adolygu cyflog y clerc tan y cyfarfod nesaf. Anfonir Bydd copi o gytundeb y clerc a chyngor Un Llais Cymru yn dilyn adolygiad cyflog cenedlaethol i'w hystyried. Bydd y Cadeirydd yn hel gwybodaeth am gyflogau clercod lleol.
- Gloversure INV-29254 £21.60 am adrodd gwall ar eu system a Gloversure INV-29397 £51.60 GBP – tâl blynyddol Penderfynwyd gohirio'r taliadau a gofyn am gopi o'r cytundeb. Mynegwyd pryderon bod rhaid talu o ganlyniad i wallau ar y system. Ystyrir gwefan y Cyngor mewn cyfarfod arall.
- WR Partners £118.80 Cyflogres Rhagfyr 2024 - Chwefror 2025

**19:793: Torri gwair mynwentydd Llanwrin a Darowen.** Penodwyd Paul Hughes gyda diolch am ei waith taclus yn y gorffennol.- £2880 am 4 toriad o leiaf ym mhob mynwent. Cyflwynwyd y dogfennau yswiriant perthnasol. Cynigiwyd hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.

**19:794:** Fel arwydd o gydnabyddiaeth a diolch i Mrs. Lilwen Humphreys am ei chyfraniadau helaeth i'r gymuned adeg ei hymddeoliad o'i Gwaith fel Post Feistres penderfynwyd ei gwahodd i de bach cyn y cyfarfod nesaf.

**19:795: Biniau halen Darowen**. Trafodir y rhain yn y cyfarfod nesaf. Cysylltir â *Tanks Direct* am brisiau.

**19:796**: **Gohebiaeth**

**19:797: Adroddiadau'r Cynghorwyr– Elwyn Vaughan** – Mae cyllideb Cyngor Sir Powys wedi cael ei phasio. Llwyddwyd i gael £7.4m ychwanegol at ysgolion a £1.2m at ffyrdd. Mae trafodaethau mynd rhagddo ar gyfer cais cyfalaf i Lywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Feithrin Glantwymyn ac yn sgil arian ychwanegol o'r Llywodraeth i Bowys ar gyfer ffyrdd. Parheir i bwyso i gael Powys i fabwysiadu'r ffordd at y Fet a'r gweithdai. Mynegodd diolch i Elwyn gan Aled Griffiths am ei waith.

**19:798: Ffyrdd a Phontydd**

Mynegwyd pryderon am ddiogelwch yng Nglantwymyn gan fod cymaint o loriïau'n parcio ar ochr y ffordd ger y cylchfan. Mae perygl i ddefnyddwyr ffyrdd ar droed ac mewn cerbydau yn enwedig ar adegau prysur e.e. plant ysgol yn cyrraedd yr ysgol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.55